# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

## Ysgol Gynradd Rhostryfan
**Rhostryfan**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL54 7LR**

**Rhif yr Ysgol: 6612099**

**Dyddiad yr Arolygiad: 14 Ebrill 2008**

**gan**

**Wil Williams**

**67644**

**Dyddiad Cyhoeddi: 18 Mehefin 2008**

**O dan rif contract Estyn: 1117407**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a’r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

93. Cynllunnir yn fwriadus ar gyfer cyflwyno addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) gyda’r maes wedi’i integreiddio’n naturiol i holl waith yr ysgol.

94. Mae profiadau dysgu priodol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Trwy ystod o weithgareddau cwricwlaidd a chyfnodau rheolaidd megis sesiynau addoli ar y cyd ac amser cylch, caiff disgyblion eu hannog i barchu ei gilydd ac oedolion. Mae’r profiadau hyn yn cyfrannu’n dda at greu ethos hapus a theuluol yn yr ysgol.

95. Mae’r ysgol yn darparu amrediad da o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol i’r disgyblion. Mae’r rhain yn cynnwys gweithgareddau’r Urdd ynghyd â nifer helaeth o ymweliadau addysgol sydd hefyd yn cynnwys ymweliadau preswyl.

96. Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill.